



Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) 2023/24



Nodiadau Manylion Ariannol



www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/lca

Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

Rhannwyd y nodiadau hyn yn adrannau yn yr un modd â'r Ffurflen Manylion Ariannol, er mwyn i chi ddod o hyd i'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch yn gyflymach.



Pan fyddwch yn gweld yr eicon hwn yn y ffurflen gais, mae'r nodiadau hyn yn cynnwys **gwybodaeth** ychwanegol i'ch helpu.



Ble gwelwch yr eicon yma, mae'n golygu bod angen i chi anfon **tystiolaeth ategol**. Bydd y nodiadau hyn yn dweud wrthyfch yn union beth ydym ei angen gennych. Byddwn yn derbyn **llungopïau** o'ch tystiolaeth.

Help a gwybodaeth ychwanegol

- I weld yr wybodaeth ddiweddaraf, trowch at **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/lca**
- Os bydd angen i chi siarad gyda rhywun am LCA, gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050 (Minicom: 0300 100 1693)**.
- Gallwch gael fersiynau Braille, fersiynau print mawr neu fersiynau sain o unrhyw rai o'n ffurflenni neu'n canllawiau. Os byddwch angen fersiynau o'r fath, gallwch ofyn amdanynt trwy anfon e-bost yn nodi'ch enw, eich cyfeiriad a manylion y ffurf fydd angen i chi ei chael, at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffonio **0141 243 3686**.

Ble ddylwn i anfon fy ffurflen ar ôl ei llenwi, a'm dogfennau?

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r ffurflen, llofnodi a dyddio'r cytundeb(au) ac atodi'r holl dystiolaeth yr ydym angen a'i anfon at:

EMA Wales Customer Services
PO Box 5596
Glasgow
G52 9BR

Unrhyw beth arall?

Os bydd unrhyw rai o'ch amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd angen i chi ein ffonio ar **0300 200 4050** a rhoi gwybod i ni.

Adran 2 Manylion ariannol

Rhan A



Yn hunanasesu

Os llenwoch ffurflen dreth ar-lein

Dylech droi at eich ffurflen dreth ar-lein a gadwyd i gael y ffigurau incwm sy'n ofynnol yn yr adran hon.

Os llenwoch ffurflen dreth bapur

Mae canllaw ar-lein ar gael i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn yr adran hon, y gallech ei lawrlwytho o: www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/lca neu os hoffech i ni anfon copi atoch, ffoniwch ni ar 0300 200 4050.

Rhan B

Gwybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2021-22



Rhannu data

Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol y byddwch yn ei darparu gyda Chyllid a Thollau EM (HMRC). Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol.

Os na fyddwch yn darparu eich rhif Yswiriant Gwladol ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu eich dogfennau ariannol. Os bydd eich rhif Yswiriant Gwladol yn ymddangos ar unrhyw rai o'r dogfennau y byddwch yn eu hanfon atom i gefnogi cais, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn ei rhannu ac yn ei chadarnhau gyda HMRC er mwyn cael gwybodaeth ariannol fanwl amdanoch chi.

2.1

Os yw incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol ers 2021-22



I fod yn gymwys i gael taliadau LCA, dylai cyfanswm incwm eich cartref fod naill ai yn:

- £20,817 neu lai; **neu**
- £23,077 neu lai ac mae mwy nag un person ifanc yn y cartref yn gymwys i gael Budd-dal Plant.

Os gwnaethoch ennill mwy na'r trothwy hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 ond bod eich incwm wedi gostwng yn is na'r trothwy ers hynny, gellir eich ystyried i gael LCA ar sail incwm presennol eich cartref.

Mae arnom angen prawf o incwm presennol eich cartref; dylech anfon un o'r rhain atom:

- eich llythyr Credyd Cynhwysol diweddaraf; **neu**
- eich llythyr Cymhorthdal Incwm diweddaraf; **neu**
- eich slipiau cyflog am y 3 mis diwethaf; **neu**
- **Os byddwch chi'n llenwi hunanasesiad** – llythyr gan eich cyfrifydd ar bapur pennawd sy'n datgan eich incwm tri mis diwethaf. Rhaid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y llythyr hwn.

A phrawf i ddangos fod incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol; anfonwch un o'r rhain atom:

- eich P45; **neu**
- eich llythyr diswyddo; **neu**
- llythyr gan eich cyflogwr ar bapur pennawd sy'n egluro'r gostyngiad parhaol mewn incwm. Rhaid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y llythyr hwn.

Os oes dau riant/gwarchodwr yn eich cartref

Os yw'r incwm wedi gostwng ar gyfer un riant/gwarchodwr, rhaid i'r llall hefyd ddarparu tystiolaeth o'i enillion.

Adran 2 Manylion ariannol (parhad)

2.4 Incwm o gyflogau



Os cawsoch chi **gildyrnau a thaliadau** eraill nad oeddynt ar eich P60 fel rhan o'ch cyflog ar gyfer blwyddyn dreth 2021-22, bydd angen i chi gynnwys y ffigur hwn o hyd pan fyddwch yn nodi cyfanswm eich incwm o gyflogaeth.

9 Incwm o fudd-daliadau trethadwy y wladwriaeth



Dim ond incwm a gafwyd ar gyfer y budd-daliadau canlynol y dylech ei gynnwys:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau
- Budd-dal ymdeol graddedig
- Budd-dal Analluogrwydd (dim ond y swm a gafwyd ar ôl 28 wythnos o analluogrwydd y dylech ei gynnwys)
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Salwch Statudol
- Lwfans Rhiant Gweddw

2.6 Incwm o gynilion a buddsoddiadau



Er mwyn gwneud y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi ei rannu yn bedair rhan ar wahân. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm o bob rhan, dylech ddweud wrthym am y rhai yr ydych wedi'u cael yn unig.

Dim ond swm y llog/incwm a gawsoch o gynilion a buddsoddiadau yn ystod blwyddyn dreth 2021-22 y dylech ddweud wrthym amdano, ac nid swm go iawn eich cynilion neu'r symiau yr ydych wedi'u buddsoddi.

9 Cyfanswm y llog o fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU



Llog gros o'r DU yw hwn (cyn didynnu treth ohono).

Rhaid i chi gynnwys llog yr ydych yn ei gael ar eich cyfrifon banc, cymdeithas adeiladu a chynilion eraill oni bai ei fod yn ddi-dreth yn benodol, er enghraifft, Cyfrif Cynilion Unigol (ISA) di-dreth ac ati.

Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw incwm o gynilion a buddsoddiad i HMRC, trowch at eich datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu am y ffigurau hyn.

Adran 2 Manylion ariannol (parhad)



Cyfanswm yr incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarannau a phartneriaethau yn y DU

Mae hyn yn cynnwys:

- Llog o warannau eurymylog a gwarannau eraill yn y DU – swm gros cyn treth
- Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, a ystyriwyd fel pe bai treth wedi ei dalu arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, a ystyriwyd fel pe na bai treth wedi ei dalu arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, o gyfrifon ISA di-rym
- Eich cyfran o log a drethwyd ac ati
- Cyfanswm yr incwm o gynilion di-dreth sy'n drethadwy ar 20%
- Incwm trethadwy sy'n drethadwy ar 10%
- Incwm trethadwy sy'n drethadwy ar 20%



Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau a difidendau yn y DU

Mae hyn yn cynnwys:

- Difidendau gan gwmnïau o'r DU
- Difidendau eraill
- Difidendau stoc
- Dosbarthiadau anghymwys a benthyciadau cwmni agos wedi'u dileu neu eu rhyddhau
- Cynlluniau cyfrannau – swm trethadwy



Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiad a difidendau tramor

Mae hyn yn cynnwys:

- Difidendau tramor
- Llog ac incwm arall o gynilion tramor
- Difidendau gan gwmnïau tramor
- Incwm difidend a gafwyd gan rywun mewn gwlad dramor

Adran 2 Manylion ariannol (parhad)

2.7 Buddion trethadwy mewn nwyddau



Mae hyn yn cynnwys:

- Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)
- Taliadau a wnaethpwyd ar ran cyflogai
- Talebau a chardiau credyd
- Llety byw
- Lwfans milltired a thaliadau teithiwr
- Cyfanswm ariannol cyfatebol yr holl geir/faniau sydd ar gael
- Cyfanswm ariannol cyfatebol tanwydd ar gyfer yr holl geir/faniau sydd ar gael
- Cyfanswm ariannol cyfatebol benthyciadau ar ôl didynnu unrhyw log a delir gan y benthyciwr
- Yswiriant neu driniaeth feddygol breifat
- Buddion a thaliadau a threuliau adleoli cymwys
- Gwasanaethau a ddarparwyd
- Asedau a roddir at ddefnydd cyflogai
- Eitemau eraill (gan gynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)
- Taliadau treuliau a wneir i'r cyflogai neu ar ei ran

Rhan C

Unrhyw incwm arall

2.9 Incwm o hunangyflogaeth



Er mwyn gwneud y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi ei rannu yn ddwy ran. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm gan y ddwy ran, dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch yn unig.

Cyfanswm yr elw trethadwy o fusnesau

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfanswm yr elw wedi ei addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno ar gyfer gweithgarwch hunangyflogaeth lluosog)

Cyfanswm yr elw trethadwy o bartneriaethau

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfran o gyfanswm yr incwm trethadwy a heb ei drethu ac eithrio'r hyn sy'n drethadwy ar 10% ac 20%
- Eich cyfran o gyfanswm yr elw wedi'i addasu o'r partneriaethau

2.10 Incwm fel Gweinidog yr efengyl



Mae hyn yn cynnwys:

- Incwm trethadwy yn llai treuliau (Gweinidogion yr efengyl) nad ydynt yn cael eu cynnwys yn eich P60 neu'ch P11D

Adran 2 Manylion ariannol (parhad)

2.11 Unrhyw gyfandaliadau neu incwm trethadwy arall



Mae hyn yn cynnwys:

- Incwm trethadwy arall – cyn tynnu treuliau a threthi ffwrdd
- Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- Cyfandaliadau trethadwy
- Cyfandaliadau neu fudd-daliadau a gafwyd gan Gynllun Buddion Ymdeol a Ariannwyd gan Gyflogwr heb gynnwys pensiynau
- Cyfandaliadau colli gwaith a chyfandaliadau a thaliadau iawndal eraill

2.12 Incwm o osod eiddo



Mae hyn yn cynnwys:

- Incwm o eiddo yn y DU
- Incwm o eiddo neu dir mewn gwlad dramor

2.13 Incwm gan ymddiriedolaethau yn y DU



Mae hyn yn cynnwys:

- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl yn y DU – swm net
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl yn y DU – cyfanswm y taliadau gan ymddiriedolaethau budd setlwyr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm nad yw'n incwm cynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm gan gynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm o ddifidend
- Incwm sy'n drethadwy ar ymsefydlwyr
- Incwm o ystadau yn y DU
- Incwm o ystad dramor

2.14 Incwm tramor



Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfanswm trethadwy gan bensiynau tramor, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau ac ati
- Cyfanswm trethadwy'r holl incwm arall a gafwyd gan rywun mewn gwlad dramor ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i neilltuo' a dalwyd
- Enillion ar waredu daliadau, cronfeydd tramor ac incwm dewisol gan ymddiriedolaethau amhreswyl
- Budd a gafwyd gan ymddiriedolaeth dramor, cwmni neu unigolyn arall
- Enillion ar bolisiau bywyd tramor (swm yr enillion)

Adran 2 Manylion ariannol (parhad)

2.15 Incwm o bensiwn tramor



Mae hyn yn cynnwys:

- Gwerth buddion pensiwn yn ychwanegol i'ch Lwfans Oes sydd Ar Gael, a gymerwyd gennych fel cyfandaliad
- Swm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Cyfanswm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, sy'n unol â gordal
- Ad-daliad gwasanaeth byr trethadwy cyfraniad (cynlluniau pensiwn tramor yn unig)
- Taliad budd marwolaeth cyfandaliad trethadwy (pensiynau tramor yn unig)

2.16 Incwm ac enillion tramor eraill



Mae hyn yn cynnwys:

- Swm yr hepgorion (eithriadau dan drefniadau trosglwyddo asedau tramor)

Rhan D

Didyniadau incwm

2.19 Treuliau a ganiateir y gwnaethoch hawlio gostyngiad yn y dreth arnynt



Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth dramor nas hawliwyd gostyngiad credyd treth ar ei chyfer
- Treuliau cynhaliaeth a theithio busnes
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau
- Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol
- Lwfansau cyfalaf a threuliau eraill

Adran 3 Cytundebau



Crynodeb Defnydd o Wybodaeth

Cyllid Myfyrwyr Cymru yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig (SLC), wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol yn ymwneud â cheisiadau cyllid i fyfyrwyr i SLC.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwyswch gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/ab/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

